



Llywodraeth Cymru

Papur Gwyn – crynodeb o'r ymatebion

Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2015



Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn a oedd yn ceisio barn am gynigion i gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru.

Gweithredu sy'n ofynnol

Dim – er gwybodaeth.

Manylion cysylltu

Polisi Trethi a Deddfwriaeth
2ilLawr – Dwyrain
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: FinancialReformMailbox@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.wales.gov.uk



Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	2
2. Awdurdod Cyllid Cymru, Siarter Drethdalwyr a Chasglu Trethi	4
3. Pwerau a dyletswyddau	8
4. Annog cydymffurfio â threthi	10
5. Mynd i'r afael ag osgoi treth	13
6. Datrys anghydfodau treth	16
7. Arall	19
Atodiad A	Digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid
Atodiad B	Ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law
Atodiad C	Geirfa

1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar “Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru” ar 23 Medi 2014. Cyflwynwyd y Papur Gwyn yn dilyn cyflwyno Bil Cymru¹ a gynigiai bwerau ariannol newydd i Lywodraeth Cymru gan gynnwys pwerau i gyflwyno trethi newydd i ddisodli Treth Dir Treth Stamp y DU a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru o fis Ebrill 2018 ymlaen.

1.2 Roedd y Papur Gwyn yn ystyried yr opsiynau a'r cyfleoedd ar gyfer y polisi a'r ddeddfwriaeth ddilynol ar gasglu a rheoli trethi yng Nghymru yn y dyfodol. Ceisiwyd barn am y cynigion yn ystod cyfnod ymgynghori 12 wythnos a ddaeth i ben ar 15 Rhagfyr 2014². Cynhaliodd Llywodraeth Cymru nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae manylion y rhain i'w gweld yn Atodiad A.

1.3 Mae datblygu cyfundrefn casglu a rheoli trethi yng Nghymru yn cyd-fynd yn agos â datblygu cynigion ar gyfer dwy dreth newydd i Gymru – y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) a'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT). Mae rhai trefniadau casglu a rheoli yn gyffredin i'r ddwy ac mae rhai'n benodol i'r trethi unigol ac yn wir yn ddibynnol ar drefniadau'r dreth ei hun.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

1.4 Daeth cyfanswm o 40 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law oddi wrth amrywiol randdeiliaid. Daeth yr ymatebion oddi wrth unigolion a sefydliadau amrywiol a oedd yn cynrychioli gwahanol sectorau, gan gynnwys barn sefydliadau ymbarél a oedd yn cynrychioli eu haelodau a'u cyrff cyswllt. Rhoddwyd ystyriaeth i bob sylw fel rhan o'r gwaith o asesu canlyniadau'r ymgynghoriad.

1.5 Mae natur wahanol yr ymatebwyr yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer ystyried y materion a godwyd yn yr ymatebion, a dylid gochel rhag ffurfio casgliadau ddim ond ar sail nifer yr ymatebwyr wnaeth leisio barn debyg i'w gilydd.

1.6 Daeth ymatebion i law oddi wrth ymatebwyr yng Nghymru, Cangen Cymru o sefydliadau DU gyfan neu sefydliadau DU gyfan sydd â phrofiad o weithredu'r trefniadau treth presennol yng Nghymru. Roedd llawer o'r ymgynghoreion heb ateb pob cwestiwn, ac roedd nifer ohonynt wedi rhoi sylwadau heb ddweud a oeddent yn cytuno â'r cynigion ai peidio.

1.7 Cafodd yr holl ymatebwyr wahoddiad i fod yn ddienw; penderfynodd un ar ddeg o ymatebwyr ddefnyddio'r opsiwn hwn ac felly maent yn ddienw drwy'r ddogfen.

¹Derbyniodd BilCymru 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2014.

²<http://wales.gov.uk/consultations/finance/devolved-taxes/?skip=1&lang=cy>

1.8 Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebwyr yn ôl categori ymatebwyr. Mae manylion pellach am yr ymatebwyr i'w cael yn Atodiad B a chaiff copïau o'r union ymatebion eu cyhoeddi ar wahân.

Categori ymatebwyr	Nifer	%
Cyfrifwyr trethi a chyrff trethi proffesiynol	8	20
Busnesau	5	12.5
Elusennau	2	5
Unigolion	17	42.5
Cyrff proffesiynol cyfreithiol	1	2.5
Cyrff cyhoeddus yng Nghymru	6	15
Pleidiau Gwleidyddol	1	2.5
Cyfanswm	40	100%

1.9 O blith yr ymatebion a gafwyd gan unigolion, dywedodd deuddeg ohonynt eu bod o'r farn na ddylai pwerau trethu gael eu datganoli i Gymru neu nad oedd angen trefniadau penodol i Gymru ar gyfer trethi. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn fod Cymru yn wlad fechan, ac y byddai'n costio mwy i'r trethdalwyr yn y pen draw pe byddai trethi'n cael eu datganoli. Nid aeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn i fanylion pellach wrth ateb cwestiynau'r ymgynghoriad. O ganlyniad, os rhoddwyd ymateb negyddol i gwestiwn gan na chytunai'r ymatebydd â datganoli treth, nid ydym wedi egluro hyn yn y crynodeb. Os yw ymatebydd wedi ymateb yn negyddol i gwestiwn am reswm arall, mae hyn wedi cael sylw.

1.10 Yn yr un modd, ein bwriad yma yw amlygu'r ystod o ymatebion a'r sylwadau y mae ymatebwyr wedi'u darparu. Ar adegau, mae nifer glir o ymatebwyr wedi cefnogi barn benodol, a defnyddiwn niferoedd i gadarnhau hyn. Er hynny, mewn rhai achosion, mae'r ystod o sylwadau'n berthnasol iawn, ac yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn pwysleisio'r ystod o bwyntiau a wnaed.

2. Awdurdod Cyllid Cymru, Siarter Drethdalwyr a Chasglu Trethi

Cyflwyniad

2.1 Roedd Pennod 2 o'r Papur Gwyn yn gofyn am farn ar gynigion i bwerau casglu a rheoli trethi gael eu breinio mewn corff cyhoeddus newydd â chyfansoddiad cyfreithiol, a gâi ei alw'n Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Byddai'r corff yn sefyll ar wahân yn weithredol i Weinidogion, ond ni fyddai'n gwbl annibynnol arnynt. Gofynnwyd am farn hefyd ar sefydlu Siarter Drethdalwyr ac ar y dull o gasglu trethi.

Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru fel Adran Anweinidogol, sy'n atebol i'r Cynulliad?

2.2 O'r 31 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cytunai 19 â'r cynnig i sefydlu ACC, roedd 11 nad oeddent yn gefnogol ac roedd un ymateb arall, er nad oedd yn cyfeirio'n benodol at sefydlu'r ACC arfaethedig, yn cymeradwyo'r angen am "uned arbenigol i asesu a gweinyddu" y trethi datganoledig.

2.3 Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn gefnogol i sefydlu ACC nodi ei bod yn bwysig mai Adran Anweinidogol fyddai hi. Dywedodd rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig i ACC fod yn annibynnol ond ei bod yn bwysig hefyd bod y Cynulliad yn gallu dwyn ACC i gyfrif yn briodol pan fo angen.

2.4 Fe wnaeth dau o'r ymatebwyr a oedd o blaid ACC godi cwestiwn ynglŷn â faint o oruchwyliaeth y byddai modd i Lywodraeth Cymru ei chael dros gorff Anweinidogol. Awgrymodd un ymatebwr "y byddai o bosibl yn well i Gymru pe bai ACC yn adran Weinidogol gan y byddai felly'n uniongyrchol atebol i Weinidog a fyddai, yn ei dro, yn atebol i'r Cynulliad".

2.5 Dywedodd un ymatebydd, er y bydd refeniw ACC yn mynd i Gronfa Gyfunol Cymru, y dylai hefyd fod yn gallu tynnu arian oddi wrthi pan fo angen. Awgrymai y dylai Swyddfa Archwilio Cymru oruchwyllo hyn.

Cwestiwn 2: Beth yw'ch barn am y set graidd arfaethedig o ddyletswyddau i Awdurdod Cyllid Cymru?

2.6 O'r 25 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 17 o blaid y set graidd arfaethedig o ddyletswyddau.

2.7 Awgrymodd pump o'r ymatebwyr a oedd yn gefnogol i'r set graidd o ddyletswyddau y gellid atgyfnerthu'r dyletswyddau pe byddent yn fwy penodol ynglŷn

â sut byddai ACC yn ymdrin â chaledi yn enwedig o safbwynt busnesau. Ystyriwyd y byddai mwy o fanylder ar sut byddai ACC yn “ymarfer disgresiwn gydag achosion o galedi eithriadol” yn ofynnol o bosibl er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth am ddull gweithredu ACC.

2.8 Teimlai rhai o'r cyrff cyfrifeg a chyrff proffesiynol eraill y byddai o bosibl yn briodol i ACC gael rôl ehangach i gynghori'r Llywodraeth. Awgrymwyd nad oedd y set gyfredol o ddyletswyddau yn caniatáu i ACC gynghori'r Llywodraeth ar yr holl bolisiau sy'n gysylltiedig â threthi, yn hytrach na dim ond gweinyddu a chasglu trethi. Gan mai ACC fyddai'r arbenigwyr yng Nghymru, teimlwyd y byddai'n briodol iddynt gynghori'r Llywodraeth ar yr holl faterion sy'n ymwneud â threthi. Yn fwy penodol dywedodd un ymatebwr “y gallai ACC hefyd chwarae rhan i nodi a monitro cryfderau a gwendidau yn y gyfundrefn drethi Gymreig”.

2.9 Yn olaf, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd adolygu'r dyletswyddau craidd yn rheolaidd. Teimlent, er bod y dyletswyddau'n addas i'r cyfrifoldeb fyddai gan ACC i ddechrau, y gallai'r sefyllfa newid i'r dyfodol gyda datganoli pellach. O'r oherwydd, awgrymwyd y dylid sefydlu proses adolygu i sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu cadw'n gwbl ddiweddar.

Cwestiwn 3: A oes gennych farn bellach ar y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu arfaethedig er sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru?

2.10 O'r 22 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf yn gefnogol i'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu arfaethedig.

2.11 Fe wnaeth pedwar o'r cyrff cyfrifeg, y cyrff proffesiynol eraill a'r un busnes a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (ac a oedd yn gefnogol i'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu arfaethedig) awgrymu y dylai bwrdd ACC gael lefel ddigonol/addas o arbenigedd mewn trethi – naill ai'r maes gweinyddu trethi neu'r proffesiwn trethi ehangach. Ystyriwyd y byddai arbenigedd o'r fath yn hollbwysig er mwyn sicrhau goruchwyliaeth briodol ar y ffordd y caiff ACC ei weithredu.

2.12 Fe wnaeth chwech o'r ymatebwyr (o ystod eang o gategoriâu) wneud sylw uniongyrchol ar y trefniadau atebolrwydd. Roeddent yn gefnogol iddynt a theimlent mai bod yn uniongyrchol atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y ffordd fwyaf priodol o sicrhau y creffir yn briodol ar ACC. Awgrymodd tri o'r ymatebwyr hyn mai'r “Pwyllgor Cyllid fyddai'r Pwyllgor priodol i graffu ar ACC”.

2.13 Fe wnaeth pump o blith y rhai a oedd yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu arfaethedig, wneud sylw am y gost. Roeddent hwy o'r farn bod yn rhaid cadw nifer yr aelodau bwrdd, ac felly'r gost, yn gymesur â maint y gwaith a wneir. Ar yr un pryd, roedd un o'r ymatebwyr hyn yn cydnabod “fod angen i beth bynnag a sefydlir fod yn addas ar gyfer y posibilrwydd o ddatganoli trethi pellach”.

Cwestiwn 4: Beth yw'ch barn ar y cynigion i sefydlu Siarter Drethdalwyr? Pa gamau sy'n hanfodol i sicrhau bod y siarter yn parhau'n berthnasol ac effeithiol o ran cynnal perthynas adeiladol rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a threthdalwyr?

2.14 O'r 25 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf yn gefnogol ar y cyfan i'r Siarter Drethdalwyr. Fodd bynnag, cododd nifer gwestiynau am sut y byddai'r Siarter yn gweithredu.

2.15 Un thema a oedd yn codi droeon drwy'r holl ymatebion, yn rhai cefnogol ac anghefnogol, oedd pa mor effeithiol y gallai Siarter Drethdalwyr fod. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â sut byddai Siarter yn gweithredu, a theimlwyd bod eglurhad pellach yn angenrheidiol er mwyn i'r Trethdalwr ei deall. Awgrymodd dau ymatebydd y dylid cynnal ymgynghoriad penodol ar y Siarter Drethdalwyr er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi sylwadau ar holl fanylion y Siarter.

2.16 Soniodd y rhai a oedd yn gefnogol i'r Siarter, a'r rhai nad oeddent cymaint felly, am bwysigrwydd cadw'r Siarter yn gwbl ddiweddar. Roedd yr ymatebwyr yn ymwybodol ei bod yn bosibl y byddai ACC yn cael mwy o gyfrifoldebau wrth i'r darlun datganoli barhau i ddatblygu. Awgrymwyd y dylai trefniadau gael eu rhoi ar waith i adolygu'r Siarter er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei diweddarau wrth i gyfrifoldebau ACC newid.

2.17 Yn olaf, cyfeiriodd dau ymatebydd at bwysigrwydd sicrhau cefnogaeth ddeddfwriaethol i'r Siarter. Dywedasant nad oedd statws cyfreithiol y Siarter yn cael ei nodi yn yr ymgynghoriad, ond eu bod yn teimlo y dylid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei orfodi'n briodol.

Cwestiwn 5: Beth yn eich barn chi yw'r ystyriaethau pwysicaf wrth benderfynu sut i ymdrin â chasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, a pham? (Wrth ateb, cofiwch ystyried y ffactorau a nodwyd ym mharagraff 2.37, ond tynnwch sylw hefyd at unrhyw ffactorau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys, sydd yn eich barn chi yn bwysig).

2.18 Fe wnaeth 20 o ymatebwyr roi sylw i'r mater hwn, a thynnodd bron y cyfan ohonynt sylw at yr heriau o leihau costau a darparu lefel dda o wasanaeth cydlynol i'r trethdalwr, fel y gwelir yn yr ymateb hwn:

“O safbwynt trethdalwyr, y ffactor pwysicaf yw cael cydbwysedd rhwng sicrhau arbedion drwy ddulliau isel eu cost, heb lefelau perfformiad isel (e.e. dim digon o staff i ymateb i ymholiadau ffôn yn brydlon) a'r amgyffrediad bod yr Awdurdod ymhell o gyrraedd, yn anhygyrch neu'n ddifeddwl o “lawdrwm”.

2.19 Dyma rai materion a godwyd gan fwy nag un ymatebydd:

- roedd cefnogaeth i ddull penodol Gymreig o ymateb i anghenion Cymreig;
- yr angen i sicrhau bod anghenion unigolion (gan gynnwys rhai heb y sgiliau a'r hyder i ddefnyddio systemau ar-lein) yn cael eu bodloni.

2.20 Tynnwyd sylw at fanteision dilyniant gyda dull gweithredu'r gwasanaeth presennol ac, yn benodol, yr angen i gynnal safonau cyfrinachedd trethdalwyr. Ystyrid y byddai defnyddio un sefydliad yn sicrhau effeithlonrwydd a symlrwydd. At ei gilydd, roedd ymatebwyr yn bennaf o blaid bod y cyfrifoldeb dros reoli a chasglu'n sefyll gyda chyrff cenedlaethol nid cyrff lleol, sef ACC neu CThEM, neu yn achos y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, Cyfoeth Naturiol Cymru ac, yn ddelfrydol, gyda'r cyfrifoldeb cyffredinol yn nwylo un corff.

Cwestiwn 6: O ystyried eich ateb i gwestiwn 5, pa sefydliad(au) ddylai gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn eich barn chi, a pham?

2.21 Amlygodd nifer o ymatebwyr rôl bosibl gwahanol sefydliadau mewn gwahanol agweddau ar y system casglu a rheoli trethi, er enghraifft "o blaid bod y cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli a chasglu'n sefyll gydag ACC neu CThEM, neu yn achos y Dreth Dirlenwi, Cyfoeth Naturiol Cymru." Pwysleisiai ymateb arall y dylai'r safonau gwasanaeth fod yn rhan annatod o'r broses ddethol, gan awgrymu y dylai penderfyniad terfynol gael ei lywio gan ryw gymaint o fanylder am ofynion contractio.

2.22 At ei gilydd (gan nodi bod llawer o ymatebwyr wedi dangos eu cefnogaeth i fwy nag un sefydliad), roedd ymatebwyr yn gefnogol i CThEM fod â rôl barhaus bosibl oherwydd y gallai hynny fod yn ymateb priodol i'r angen am arbenigedd sefydliadol ac arbedion maint. Fe wnaeth nifer lai o ymatebwyr nodi y gallai ACC hefyd ysgwyddo'r rôl hon, fel un sefydliad. Cydnabyddai nifer fechan o ymatebwyr y byddai'n bosibl dirprwyo cyfrifoldebau i ALLau i gasglu'r holl drethi gan fod ganddynt eisoës arbenigedd ac eisoës yn gweithredu prosesau effeithlon. Awgrymai tri ymateb y gallai CNC fod â rôl o safbwynt y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, er bod CNC eu hunain wedi dweud y byddai'n well ganddynt hwy bwyso a mesur ospiynau eraill o ran elfennau cydymffurfiaeth a gorfodaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

2.23 Dywedwyd mewn sylwadau eraill y dylai Llywodraeth Cymru o bosibl ailedrych ar y mater hwn dros yr hirdymor, fel yr awgryma'r canlynol:

"Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i ddisgwyliadau tymor hwy'r gyfundrefn dreth Gymreig, megis y gallai unrhyw atebion a fabwysiedir yn awr gael eu haddasu, neu'u diwygio yng ngoleuni newidiadau diweddarach yng nghwmpas trethi datganoledig. Mae'n bosibl y byddai ACC sy'n gweithredu drwy adnoddau annibynnol yn fwy addas os rhagwelir y bydd pwerau'n cael eu datganoli i raddau helaeth i'r dyfodol."

3. Pwerau a Dyletswyddau

Cyflwyniad

3.1 Roedd y Papur Gwyn yn datgan ymagwedd Llywodraeth Cymru at bwerau a swyddogaethau gan ddweud lle nad oes rheswm polisi i wrodd oddi wrth ddeddfwriaeth gweinyddu trethi'r DU (er enghraifft am resymau effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd neu i ganolbwyntio ar anghenion Cymru) y bydd y trefniadau yng Nghymru yr un fath ag egwyddorion a phrosesau gweithredol cyfredol y DU.

3.2 Darparai'r ymgynghoriad hwn gymaint o fanylder â phosibl ar bwerau a dyletswyddau gan roi esiamplau o sut byddent yn gweithredu o bosibl. Bydd y bil a gyflwynir maes o law ar gasglu a rheoli trethi yn gweithredu fel plattform ar gyfer gweinyddu trethi Cymreig, gyda'r trefniadau penodol yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriadau trethi penodol ar gyfer y TDL ac LTT.

Cwestiwn 7: A ydy'r rhwymedigaethau arfaethedig ar drethdalwyr yn briodol? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu hystyried?

3.3 O'r 21 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 17 yn gefnogol i'r rhwymedigaethau arfaethedig ar drethdalwyr.

3.4 Fe wnaeth nifer o'r ymatebwyr, er eu bod yn hapus gyda'r rhwymedigaethau arfaethedig, awgrymu rhai newidiadau ac ychwanegiadau a fyddai'n eu gwella, yn eu barn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys: darparu mwy o fanylder am bob rhwymedigaeth i sicrhau bod trethdalwyr yn deall yn iawn yr hyn a ddisgwyliwyd ganddynt; cyflwyno rhwymedigaeth ar drethdalwyr i hysbysu ACC pe byddent yn sylweddoli bod ffurflen dreth yn anghywir; a, sicrhau ei bod yn glir y gallai trethdalwr ddefnyddio asiant i gyflawni ei rhwymedigaeth pe dymunai.

3.5 Gwnaeth rhai ymatebwyr sylw hefyd y dylai set o rhwymedigaethau cydbwyso ar ACC gael ei datgan. Dylai'r set hon ddatgan yr hyn y gallai'r trethdalwr ei ddisgwyl gan ACC yn gyfnewid am gyflawni eu rhwymedigaethau fel trethdalwyr. Awgrymodd un ymatebydd y gallai rhwymedigaethau ACC gynnwys "er enghraifft, dyletswyddau'n ymwneud ag ansawdd gwasanaeth, hygyrchedd, amseroldeb ymatebion, cywiro camgymeriadau'n gyflym, camau i wneud iawn pan wneir camgymeriadau, systemau clir ar gyfer cwyno, gohebiaeth mewn ieithoedd eraill a chyfryngau cyfathrebu amgen ar gael (er enghraifft i bobl â nam ar eu golwg neu'u clyw)".

Cwestiwn 8: A ydych chi'n cytuno â'n bwriad i freinio pwerau yn Awdurdod Cyllid Cymru i'w alluogi i gasglu gwybodaeth a dogfennau trethdalwyr, arolygu safleoedd, cywiro ffurflenni treth a gallu cynnal ymchwiliadau, pennu cosbau a chasglu dyledion? Pa fesurau diogelu ychwanegol y gallem eu hystyried y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u nodi'n barod?

3.6 O'r 22 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cytunai 17 gyda'r dull arfaethedig o freinio'r pwerau yn ACC i'w alluogi i gasglu gwybodaeth a dogfennau trethdalwyr, arolygu safleoedd, cywiro ffurflenni treth a gallu cynnal ymchwiliadau, pennu cosbau a chasglu dyledion.

3.7 O blith yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynigion, nododd rhai ei bod yn bwysig cyfyngu cymaint â phosibl ar y pwerau. Dywedasant fod y rhan fwyaf o drethdalwyr yn ymdrechu i dalu'r swm cywir o dreth ar amser ac, felly, y dylai ACC ganolbwyntio'n bennaf ar eu helpu i allu gwneud hynny, yn hytrach na chynnal ymchwiliadau a gorfodi cosbau.

3.8 Awgrymodd y mwyafrif o'r ymatebwyr, er ei bod yn bwysig i ACC gael y pwerau arfaethedig, y dylent lynu mor agos â phosibl wrth bwerau CThEM. Y rheswm a oedd yn codi droeon am y farn hon oedd er mwyn osgoi dryswch. Byddai'n rhaid i rai trethdalwyr ddelio ag awdurdod trethi ychwanegol o ganlyniad i ddatganoli, felly pe bai'r rheolau trethi yr un fath ar draws CThEM ac ACC yna byddai trethdalwyr yn ei chael yn haws eu deall. Os nad oedd y rheolau'n union yr un fath, awgrymodd un ymatebydd y byddai angen rhoi proses ar waith ar gyfer "osgoi a datrys gwrthdaro rhwng polisi ACC a pholisi CThEM".

3.9 Dywedodd grwpiau cyfrifeg a chyrrff proffesiynol eraill y dylai pwerau i fynnu gwybodaeth gael eu cyfyngu drwy faint broffesiynol, ac y dylai ACC ystyried cynnwys cyngor gan arbenigwyr trethi. Teimlent ei bod yn rhyfedd bod cyngor gan dwrneiod yn cael ei ddiogelu drwy faint broffesiynol, yn wahanol i arbenigwyr trethi, er eu bod o bosibl "yn llawer mwy cymwys i roi'r cyngor hwnnw". Cyfeiriodd dau o'r ymatebwyr at yr achos llys rhwng Prudential a'r Comisiynydd Arbennig Treth Incwm i gefnogi'r ddadl hon.

3.10 O safbwynt mesurau diogelu, dywedodd yr ymatebwyr y dylai'r rhain fod wedi'u sefydlu i "ddiogelu'r trethdalwyr mwyaf agored i niwed". Dywedasant y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y mesurau diogelu yn Neddf Cyllid 2008 yn cael eu hailadrodd yn ACC oherwydd y teimlwyd bod y rhain yn briodol i ddiogelu trethdalwyr.

Cwestiwn 9: Beth yw'ch barn ar ddirprwyo? A oes unrhyw faterion penodol y dylid eu cadw mewn cof wrth ystyried pa swyddogaethau y gellid eu dirprwyo neu na ddylid eu dirprwyo, ac wrth ddethol corff i ddirprwyo iddo?

3.11 O'r 17 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 14 o blaid i ACC gael y gallu i ddirprwyo ei bwerau casglu a rheoli trethi ac roedd tri yn erbyn dirprwyo.

3.12 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn bryderus ynglŷn â chyfrinachedd trethdalwyr ac yn holi sut yr ymdrinnid â hyn wrth ddirprwyo'r swyddogaeth i gorff arall. Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn hanfodol bod yr awdurdod dirprwyedig yn ymwybodol o'r fframwaith cyfreithiol y disgwylir iddo weithredu ynddo, ac y ceir adroddiadau rheolaidd i ACC ar sut maent yn glynu wrth y safonau.

3.13 Cododd rhai o'r ymatebwyr bryderon am drethdalwyr yn dod i gysylltiad uniongyrchol ag ACC. Gydag unrhyw gorff dirprwyedig, ACC fyddai'r corff sy'n gyfreithiol gyfrifol am gasglu trethi o hyd a dylai trethdalwyr fod yn gallu siarad â nhw pe dymunent. Awgrymwyd y dylid sefydlu system lle byddai ACC yn parhau i fod yn gyfrifol am gysylltu â threthdalwyr tra byddai'r corff dirprwyedig ond yn gyfrifol am gasglu trethi.

3.14 Fe wnaeth nifer o'r ymatebwyr awgrymu cyrff y teimlent y byddent yn ymgeiswyr da ar gyfer casglu a rheoli trethi ar ran ACC. Awgrymwyd CThEM, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Leol oll gan eu bod wedi cael llwyddiant cyson yn casglu trethi yn y gorffennol.

3.15 Mynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb am gasglu trethi. Roeddent yn teimlo "nad oeddent yn meddu ar yr arbenigedd na'r gallu i gyflawni'r gweithgaredd hwn ar hyn o bryd". Fe wnaethant hefyd gydnabod y byddai yna gyfleoedd i weithio gydag ACC o safbwynt rhannu gwybodaeth a chydymffurfio.

4. Annog cydymffurfio â threthi

Cyflwyniad

4.1 Mae'r Papur Gwyn yn disgrifio dull Llywodraeth Cymru o annog cydymffurfio â threthi, gan ddweud bod y rhan fwyaf o drethdalwyr yn talu'r swm gofynnol, a hynny'n brydlon. Mae hybu a galluogi cydymffurfiaeth ymysg trethdalwyr yn gydnaws â'r egwyddor o degwch a bydd yn un o'r blaenoriaethau allweddol i ACC ac i unrhyw sefydliad a fydd o bosibl yn casglu ac yn rheoli trethi ar ei ran.

4.2 Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyflwyno cymaint o fanylder â phosibl am sut bydd ACC yn cefnogi trethdalwyr i dalu'u trethi, a hynny'n brydlon, a sut bydd yn gwrth-annog ac yn atal diffyg cydymffurfio gan gynnwys defnyddio cosbau.

Cwestiwn 10: Beth yw'ch barn ynglŷn â chymryd i hyrwyddo ac annog cydymffurfio?

4.3 Awgrymodd 18 o ymatebwyr gamau eraill y gallai ACC eu cymryd i hyrwyddo ac annog cydymffurfio. Dyma rai ohonynt:

- a. cymhellion ariannol am gydymffurfio;
- b. arweiniad clir a hygyrch; a,
- c. peirianweithiau cefnogi megis llinellau ffôn cymorth, porth ar-lein, a rheolwyr cysylltiadau i gwsmeriaid.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno y dylid rhoi'r pwerau i Awdurdod Cyllid Cymru i bennu cosbau (gweler paragraff 4.14) a bod yr amodau o ran pryd a sut y cânt eu defnyddio i gael eu nodi mewn ymgynghoriadau a deddfwriaeth ddiweddarach?

4.4 O'r 24 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cytunai 18 y dylid rhoi i ACC y pwerau i bennu cosbau.

4.5 Y thema a oedd yn codi droeon drwy'r holl ymatebion oedd y dylai unrhyw bwerau i bennu cosbau barhau'n gymesur a hyblyg. Teimlai'r ymatebwyr fod system bresennol y DU yn gwyro "yn rhy bell o blaid CThEM". Dylai ACC sicrhau bod ei gosbau'n gymesur a dylai'r pwyslais fod ar helpu trethdalwyr i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf yn hytrach nag ar eu cosbi. Awgrymai'r ymatebwyr, drwy sicrhau bod y system gosbau'n hyblyg, y byddai'n diogelu'r trethdalwyr hynny a wnâi gamgymeriadau gwirioneddol neu yr oedd amgylchiadau eithriadol yn effeithio arnynt. Mae'n nodedig bod y farn hon yn cael ei rhannu gan ystod eang o ymatebwyr, gan gynnwys Cyfrifwyr, Busnesau, Cyrff Cyhoeddus a Phroffesiynau Cyfreithiol.

4.6 Cytunai ymatebwyr hefyd ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar fanylion y cosbau yn ddiweddarach. Mae system gosb annibynnol cyn sefydlu'r trethi yn ymddangos yn rhy uchelgeisiol, ac mae'n bosibl na fydd yn dal pob agwedd ar bob treth unigol yr oedd ACC yn gyfrifol amdani. Awgrymwyd, os gwnaed unrhyw newidiadau yn y system gosbau sydd ar waith ar hyn o bryd yn y DU, fod yn rhaid rhoi cyhoeddusrwydd da i hynny a'i egluro'n fanwl i sicrhau bod trethdalwyr yn ymwybodol o hynny. Awgrymwyd y dylid caniatáu cyfnod pan na fyddai cosbau'n cael eu pennu er mwyn caniatáu i drethdalwyr addasu.

Cwestiwn 12: A oes gennych unrhyw sylwadau am y ffordd y caiff cosbau eu pennu ar y funud, a allai fod o gymorth wrth inni ddatblygu ein dull ni o ymdrin â threthi Cymreig?

4.7 Nododd 10 ymatebydd fod ganddynt farn am y ffordd y caiff cosbau eu pennu ar y funud, ac y gallai hyn lywio'r modd y datblygir dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â threthi Cymreig.

4.8 Pwysleisiai'r ymatebwyr y dylai'r cosbau adlewyrchu'r bwriad y tu ôl i'r weithred. Roeddent yn pryderu na ddylai camgymeriadau gwirioneddol gael eu trin yn yr un modd â'r rhai a oedd yn camarwain ACC yn fwriadol. Roedd ymatebwyr yn credu, drwy gyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd i'r system gosbau, y byddai'n helpu i fynd i'r afael â'r broblem bosibl.

4.9 Y prif bwynt arall a wnaed oedd yr angen am symlrwydd yn y system gosbau. Teimlai'r ymatebwyr fod y system bresennol yn gymhleth, ac mai hynny oedd i gyfrif am ddiffyg cydymffurfio ymysg trethdalwyr. Awgrymwyd y dylai ACC symleiddio'r system fel bod trethdalwyr yn fwy abl i gydymffurfio.

4.10 Teimlai'r ymatebwyr hefyd y gallai ACC ddefnyddio mwy ar gymhellion a chymorth ar gyfer y rhan fwyaf o drethdalwyr a oedd yn dymuno cydymffurfio â rheoliadau treth. Ystyriwyd bod cymhellion ac addysg yn ffordd well o sicrhau cydymffurfiaeth na chosbau.

Cwestiwn 13: Beth yw'ch barn ar y dull sy'n cael ei gynnig i ymdrin â gorfodaeth droseddol a'r mesurau i ddiogelu'r cyhoedd?

4.11 Nododd 15 ymatebydd ymateb i'r cwestiwn hwn, a'r brif farn a fynegwyd oedd bod system bresennol y DU yn gweithio'n dda. Ystyriwyd, drwy gynnal system y DU y ceid cysondeb i drethdalwyr, ac oherwydd y profwyd bod y system bresennol wedi gweithio, nad oedd angen ei newid.

4.12 Tynnodd tri ymatebydd sylw'n benodol ar yr angen am ddigon o adnoddau, gwybodaeth ac arbenigedd o ran arfer pwerau ymchwiliadol. Soniwyd y dylid, wrth ddefnyddio'r rhain, sicrhau'r un math o gamau diogelu ag sy'n bodoli ar hyn o bryd ledled y DU. Awgrymwyd hefyd y gellid cael gafael ar arbenigedd o'r fath drwy ddirprwyo, yn y tymor byr o leiaf.

5. Mynd i'r afael ag osgoi trethi

Cyflwyniad

5.1 Mae Pennod Pump y Papur Gwyn yn datgan sut mae Awdurdod Cyllid Cymru'n bwriadu delio ag osgoi trethi. Cydnabyddai'r ymgynghoriad fod y rhan fwyaf o bobl yn talu'r swm priodol o dreth, a hynny'n brydlon; fodd bynnag, ceir lleiafrif o bobl sy'n defnyddio cyfleoedd a strwythurau cyfreithiol gwahanol i leihau eu bil treth.

5.2 Mae'r ymgynghoriad yn datgan y ddeddfwriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei rhoi ar waith i atal osgoi trethi pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, gan gynnwys defnyddio rheolau Datgelu Cynlluniau Osgoi Trethi (DOTAS) CThEM. Trafodir hefyd a ddylai ACC gael "Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi" neu "Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd"(GAAR) ar waith.

Cwestiwn 14: A ddylai Cymru sefydlu cyfundrefn ddatgelu benodol ar gyfer trethi sydd wedi'u datganoli?

5.3 O'r 22 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd deg yn gefnogol yn gyffredinol i sefydlu cyfundrefn datgelu trethi (o leiaf mewn egwyddor), ond amodol oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion. Roedd deg ymatebydd yn anghefnogol, ond o'r rhain, roedd chwech ohonynt nad oeddent yn gefnogol i ddatganoli trethi. Teimlai dau ymatebydd pellach fod cyfundrefn yn ddiangen ar hyn o bryd, ond argymellasant adolygu'r mater neu ohirio penderfyniad ar sefydlu cyfundrefn nes bod system dreth ddatganoledig wedi'i sefydlu a, dim ond wedyn, ystyried hynny ar ôl cynnal ymgynghoriad ar wahân ar y mater.

5.4 Dyma rai pwyntiau eraill a wnaed:

- a oedd gwir angen am DOTAS Cymreig;
- byddai unrhyw angen posibl yn leihau pe byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu trethi a oedd yn seiliedig ar egwyddorion cadarn, a oedd yn deg ac yn bendant ac a oedd wedi'u drafftio'n glir mewn deddfwriaeth;
- a ellid cyfiawnhau DOTAS Cymreig o safbwynt cost/manteision;
- tynnwyd sylw at y gostyngiad yn nifer blynyddol y cynlluniau osgoi sy'n cael eu datgelu - yn rhannol o ganlyniad i'r rheolau, deddfwriaeth atal osgoi a "dull ymosodol" llysoedd a CThEM o wrthsefyll osgoi. Yn yr amgylchiadau, gofynnwyd tybed a fyddai rheol o'r fath, yn ymarferol, yn gwneud llawer o wahaniaeth;
- dylai unrhyw ddyfarniad gael ei wneud felly yng nghyd-destun unrhyw GAAR arfaethedig;
- dylai'r un rheoliadau neu reoliadau tebyg iawn i'r rheini sy'n bodoli ar hyn o bryd gael eu hystyried/mabwysiadu i osgoi unrhyw weinyddu ychwanegol;

- y problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd gyda DOTAS yr SDLT bresennol gan nad yw'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn cael eu diweddarau'n amserol, byddai angen ystyried hynny os oedd yr un gyfundrefn yn cael ei hystyried i Gymru.

Cwestiwn 15: Beth yw'ch barn ar y materion allweddol wrth sefydlu cyfundrefn ddatgelu at ddibenion treth? Beth yw'r manteision a'r risgiau a sut y gellid blaenoriaethu'r rhain?

5.5 O blith y 17 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cafwyd cefnogaeth glir i ddefnyddio'r gyfundrefn DOTAS bresennol. Er hynny, pwysleisiai nifer o ymatebwyr yr adnoddau oedd eu hangen i gefnogi'r gwaith o weithredu cyfundrefn ddatgelu, yn benodol yr angen i orfodi'r system:

“Os bydd Cymru'n cael system ar batrwm DOTAS, rydyn ni'n credu mai'r allwedd yw gweithredu ar unwaith ar ddatgeliadau a gweithredu yn erbyn y rheini y mae'n ymddangos eu bod yn diystyru'r system. Mae angen i'r system roi arwyddion clir yr eir i'r afael â chynlluniau – drwy gyhoeddiadau priodol a gweithredu deddfwriaethol. Os daw i'r amlwg bod cynllun heb gael ei ddatgelu, rhaid gwneud ymdrechion priodol i olrhain tarddiad y cynllun a rhaid herio'r sawl sy'n ei hyrwyddo. Mae hyn oll yn rhan o sicrhau bod y diwylliant cydymffurfio'n cael ei hyrwyddo a'i gefnogi.”

5.6 Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y baich posibl ar fusnesau. Nododd un ymatebydd “na ddylai unrhyw gyfundrefn ddatgelu atal cwmnïau rhag buddsoddi yng Nghymru drwy gynyddu costau rhedeg busnes yn ddiangen”.

Cwestiwn 16: A oes unrhyw opsiynau, ar wahân i gyfundrefn ddatgelu at ddibenion treth, y gellid eu hystyried i helpu i roi gwybod i Awdurdod Cyllid Cymru am gynlluniau osgoi trethi posibl?

5.7 Cafwyd un ar bymtheg o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Awgrymai tri ymatebydd y byddai cydweithredu agos neu ddulliau effeithiol o rannu gwybodaeth yn helpu i ganfod cynlluniau osgoi posibl. Awgrymai eraill y byddai cyfundrefn dreth syml a chlir yn ei gwneud yn anos osgoi trethi yn y lle cyntaf gan, drwy hynny, osgoi'r risg bod rhai'n osgoi trethi.

Cwestiwn 17: A oes angen Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd neu Reol Gyffredinol ar Atal Osgoi (GAAR) i Gymru ar gyfer trethi datganoledig?

5.8 Cafwyd 20 o ymatebion i'r cwestiwn ar tybed a oedd angen GAAR, gyda'r rhan fwyaf o'r farn y dylid bod yna un ac, os mabwysiadir GAAR, yna mai GAAR gulach fel y DU y dylid ei defnyddio. Yn y rhan fwyaf o achosion, y rheswm am hyn oedd oherwydd y gallai rheol ehangach ar atal osgoi creu ansicrwydd annymunol i fusnesau. Awgrymai eraill y dylai'r GAAR fod yn ehangach, i sicrhau bod trethi'n cael eu casglu'n gywir. Cafwyd set fechan a awgrymai y gellid gohirio gwneud unrhyw benderfyniad am fabwysiadu GAAR i Gymru nes bod y trethi datganoledig wedi'u sefydlu a nes bod ymgynghoriad pellach wedi cael ei gynnal.

5.9 Roedd yr ymatebion i'r Papur Gwyn hefyd yn codi rhai cwestiynau pwysig ynglŷn â GAAR:

- angen tynnu sylw at y ffaith nad oedd naill ai GAAR y DU na'r Alban wedi'u profi,
- gofynnwyd a oedd GAAR i Gymru'n ofynnol ar gyfer dim ond dwy dreth, ac
- y ceir eisoes offer mewn deddfwriaeth i atal osgoi, a'i bod yn ymddangos bod rhai o'r rhain wedi llwyddo i atal osgoi talu SDLT.

5.10 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at fanteision cyfundrefn clirio ymlaen llaw, i osgoi ansicrwydd i fusnesau.

Cwestiwn 18: A fydddech chi'n gweld GAAR i Gymru fel darpariaeth 'osgoi', ehangach, neu fel darpariaeth 'camddefnydd', gulach?

5.11 O'r 18 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, awgrymodd wyth y byddai GAAR gulach yn fwy priodol. Cafwyd rhai rhesymau clir am hyn, rhesymau a roddwyd yn aml ynglŷn â'r cwestiwn blaenorol hefyd. Roedd y rhain yn benodol yn cynnwys manteision lleihau ansicrwydd i fusnesau, ac na ddylai rheol fel hon amharu ar drefniadau masnachol sefydledig a dilys.

5.12 Awgrymwyd hefyd:

- Fod osgoi trethi wedi dod yn weithgaredd a oedd yn uchel iawn ei risg, o ganlyniad yn benodol i'r ystod o gyfryngau y mae CThEM wedi'u sefydlu i roi sylw i hyn;
- Y ceir manteision yma hefyd o fod yn gyson â dull gweithredu'r DU, ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ar draws ffiniau'r gwledydd;
- Y dylid cynnal ymgynghoriad penodol ar ddylunio a gweithredu GAAR i Gymru.

Cwestiwn 19: Pa mor bwysig yw panel annibynnol i roi mwy o sicrwydd i fusnesau ynglŷn â sut y byddai GAAR yn gweithio? Beth yw anfanteision panel annibynnol?

y byddai'n rhy ddrud a dyrys), a gallai nifer fechan weld manteision ac anfanteision i hyn.

5.14 Gwnaed amrywiol bwyntiau am weithrediad llyfn ac effeithiol panel, gan gynnwys:

- Manteision panel annibynnol i ennyn ymddiriedaeth yn y system ac mewn unrhyw GAAR drwy oruchwyllo'i weithrediad;
- Byddai panel annibynnol yn darparu arbenigedd masnachol i benderfyniadau ar a yw trafodyn penodol yn achos o osgoi/camddefnyddio ai peidio;
- Gallai gael ei ystyried yn weinyddol gymhleth a chostus ar gyfer dwy dreth ddatganoledig, a gellid bod yn anodd recriwtio iddo.

5.15 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y safonau ehangach ar gyfer y system, gan gynnwys hygrededd a thryloywder, nad oedd angen panel ar eu cyfer ond y gallai panel gyflawni'r gwaith. Cafwyd awgrym pellach fod yna'n bendant angen cael cyngor arbenigol ar unrhyw arweiniad yn gysylltiedig â GAAR, ynghyd â phanel i gyflawni hyn.

Cwestiwn 20: O ystyried y cysylltiadau clir rhyngddo â Threth ar Drafodiadau yn ymwneud â Buddiannau mewn Tir, a ddylai GAAR gael ei ystyried ymhellach wrth ymgynghori ynglŷn â'r dreth honno a deddfu arni?

5.16 Cafwyd amrywiaeth o ymatebion a sylwadau i'r cwestiwn hwn, gyda llawer ohonynt yn nodi'r cysylltiad agos rhwng GAAR presennol y DU a'r SDLT. Ceid cefnogaeth gyffredinol i ystyried GAAR eto yng nghyd-destun trafodaethau rhanddeiliaid ar y Dreth Trafodiadau Tir, ond gwnaeth eraill y pwynt bod GAAR yn rhan annatod o'r system dreth ehangach a diwylliant Awdurdod Cyllid Cymru. Awgrymai nifer o'r ymatebion y byddai ystyriaeth bellach (ac mewn rhai achosion, ymgynghoriad) ar GAAR i'w groesawu.

6. Datrys Anghydfodau Treth

Cyflwyniad

6.1 Mae'r Papur Gwyn yn datgan dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli ac ymdrin ag unrhyw anghydfodau a all godi rhwng y trethdalwr ac ACC wrth weinyddu trethi. Mae'r papur yn datgan mai man dechrau ACC fydd osgoi anghydfodau a cheisio datrys unrhyw anghydfod yn fuan pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r papur hefyd yn mynd i gymaint o fanylder â phosibl ar ba beirianweithiau sy'n cael eu hystyried i ACC eu defnyddio i ddatrys anghydfodau.

Mae'r peirianweithiau hyn yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, drafodaethau anffurfiol, Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR) a Thribiwnlysoedd.

Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'n dull o osgoi anghydfodau treth a sicrhau datrysiaid cynnar?

6.2 O'r 16 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 15 yn gefnogol i'r dull o osgoi anghydfodau treth a sicrhau datrysiaid cynnar. Yn benodol, nodwyd bod cadw'r hawl i apelio i'r tribiwnlys yn bwysig er mwyn "sicrhau hyder yn y system drethi".

6.3 Croesawai llawer o'r ymatebwyr ddatganiad Llywodraeth Cymru mai "Un o'n hamcanion polisi allweddol fydd ceisio atal anghydfodau rhag codi yn y lle cyntaf". Pwysleisiai'r ymatebwyr bwysigrwydd cadw'r system dreth yn syml a thryloyw gydag arweiniad clir ar gael yn hawdd i drethdalwyr. Ystyriwyd y byddai llai o anghydfodau i ACC ddelio â nhw o wneud hyn.

Cwestiwn 22: A ydych yn meddwl y dylai mecanwaith/mechanweithiau Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod gael ei gynnig/eu cynnig i helpu i geisio datrys anghydfodau treth yn gynnar?

6.4 O'r 16 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd pob un ond un yn gefnogol i ACC gynnig peirianwaith Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR) i helpu i geisio datrys anghydfodau treth yn gynnar. Ystyriai'r ymatebwyr fod ADR yn llwybr effeithiol o ran cost ac amser i ddatrys anghydfod o'i gymharu â mynd i gyfraith.

6.5 Teimlai rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig i ACC fod â cham adolygu mewnol cyn defnyddio ADR. Ystyrient fod adolygiadau mewnol yn rhatach i'w rhedeg, ac y gallent helpu i ddelio â materion yn effeithiol.

Cwestiwn 23: Pa fecanwaith/fecanweithiau Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod sy'n fwyaf tebygol o helpu i ddatrys anghydfodau treth a pham?

6.6 O'r 11 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cafwyd cymysgedd o safbwyntiau ar ba beirianweithiau ADR oedd yn fwyaf tebygol o helpu i ddatrys anghydfodau treth.

6.7 Y peirianwaith a ffafriwyd fwyaf gan yr ymatebwyr oedd cyfryngu. Teimlai'r ymatebwyr ei fod yn ddewis isel ei gost, a oedd yn hawdd ei weithredu. Dywedasant

hefyd ei fod wedi bod yn llwyddiannus iawn yn datrys anghydfodau gyda CThEM. Ystyriwyd mai cyfryngu oedd y dewis tecaf gan ei fod yn caniatáu i “bartïon ddod i setliad a oedd yn foddhaol i’r ddwy ochr”.

6.8 Er bod ymatebwyr yn ffafrio cyfryngu yn hytrach nag ADR, roeddent hefyd yn gefnogol i’r peirianweithiau eraill. Ystyriwyd bod gan bob peirianwaith ei rinweddau ei hun ac y byddai Cymrodeddu neu Werthuso Niwtral Cynnar yn fwy addas o bosibl ar gyfer “materion technegol-gymhleth”. Awgrymai tri o’r ymatebwyr y dylai’r tri pheirianwaith fod ar gael i’w defnyddio.

Cwestiwn 24: A ydych yn cytuno â’n dull arfaethedig o ddefnyddio’r system tribiwnlysoedd treth ddwy haen bresennol sy’n cael ei gweinyddu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel trefniant dros dro o leiaf?

6.9 O’r 19 o ymatebwyr a ymatebodd i’r cwestiwn hwn, cytunai 16 y dylai ACC ddefnyddio’r system ddwy haen bresennol a weinyddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, er hynny, teimlai pump ohonynt na ddylid ond defnyddio hon dros dro. Roedd y pump hwn yn awyddus i system cyfiawnder gweinyddol Gymreig gael ei sefydlu.

6.10 Roedd rhai ymatebwyr o’r farn y dylid defnyddio system dribiwnlysoedd a weinyddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn barhaol. Ystyrient y byddai’n fwy cost-ffeithiol defnyddio system y DU gan fod nifer yr achosion Cymreig fyddai’n mynd i dribiwnlys yn debygol o fod yn isel. Byddai sefydlu system cyfiawnder gweinyddol Gymreig yn ddrud, ac yn ddiangen gan fod yr arbenigedd eisoes ar gael yn system y DU.

Cwestiwn 25: Beth yw’ch barn ar werth mabwysiadu egwyddor “talun gyntaf”, sut y dylid ei chymhwyso i drethi penodol ac a oes unrhyw amgylchiadau lle dylid gohirio cyn ei chymhwyso i dalu trethi ac unrhyw gosbau a thaliadau llog cysylltiol?

6.11 Cafwyd 18 o ymatebion i’r cwestiwn hwn. O’r rhain, pwysleisiai nifer fawr yr angen i sicrhau y dylid gwneud darpariaethau ar gyfer caledi ac amgylchiadau heriol eraill. Nifer fechan o ymatebwyr yn unig a ystyriai y dylai’r rheolau fod yn fwy caeth na’r rhai y mae CThEM yn eu gweithredu ar hyn o bryd.

6.12 O ran dylanwadu ar ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â’r mater hwn, rhoddai’r ymatebion canlynol ymdeimlad o’r pwyntiau ehangach a wnaed:

- “Mae caledi (o’i ystyried yn wrthrychol) yn fater allweddol y dylid ei ystyried o ran gwrthod mynediad i gyfiawnder oherwydd na all trethdalwr fforddio talu neu ei fod yn cael ei amddifadu o arian am gyfnod maith. Felly, dylid cael bob amser y posibilrwydd o ohirio ar sail caledi.”

- “Er ein bod yn credu y byddai egwyddor ‘talu’n gyntaf’ yn annheg i drethdalwyr yn y rhan fwyaf o achosion rydym yn cytuno, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, os caiff ei chyflwyno, y dylid bod hyblygrwydd i’w rhoi o’r neilltu er mwyn tegwch, mynediad i gyfiawnder, ac mewn achosion o galedi.”
- “Rwy’n meddwl ei bod yn deg, os yw’r trethdalwr yn cytuno y dylai swm treth gael ei dalu ond ei fod yn anghytuno â’r swm, yna na ddylai ond talu’r swm nad yw’n ei herio.”

7. Arall

Cyflwyniad

7.1 Yn adran olaf rhoddai’r Papur Gwyn gyfle i’r ymatebwyr wneud sylw am unrhyw faterion cysylltiedig y teimlent nad oeddent yn cael sylw yn y Papur.

Cwestiwn 26: A oes gennych unrhyw faterion cysylltiol nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw neu sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

7.2 Fe wnaeth 22 o ymatebwyr ymateb i’r cwestiwn hwn. Amrywiai’r ymatebion hyn yn fawr o ran cynnwys yn enwedig am ystyriaethau oedd yn benodol i’r unigolyn neu’r sefydliad, ond roedd rhai themâu’n dod i’r amlwg.

7.3 Pwysleisiai rhai o’r ymatebwyr bwysigrwydd symlrwydd yn y system Trethi Cymreig newydd. Nododd yr ymatebwyr hyn fod gan Lywodraeth Cymru gyfle i ddechrau system dreth newydd ac y dylent ddysgu oddi wrth brofiad CThEM. Teimlent mai’r ffordd orau o annog cydymffurfiaeth oedd drwy wneud y system yn syml a chael cymaint o gysondeb â phosibl gyda CThEM.

7.4 Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn gobeithio gweld mwy o fanylion am drefn gwyno ACC. Teimlent na cheid llawer o fanylion yn yr ymgynghoriad ar sut byddai trefn gwyno’n gweithredu ac, felly, gobeithient weld ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hynny yn ddiweddarach. Dywedasant y gallai gael ei chynnwys yn y Siarter Drethdalwyr.

7.5 Dywedodd yr RSPB y dylai Llywodraeth Cymru barhau ag “arfer da’r Gronfa Cymunedau Tirlenwi” gan ei bod wedi galluogi i waith pwysig ar fioamrywiaeth fynd rhagddo ledled Cymru.

7.6 Awgrymodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) y dylai Llywodraeth Cymru geisio datganoli’r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL). Teimla’r RTPI, pe byddai’r CIL yn cael ei datganoli y gallid ei haddasu i “gyd-fynd â’r system gynllunio gyffredinol yng Nghymru”.

Digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys gyda'r CBI a Fforwm Treth a Grŵp Cynghori ar Drethi'r Gweinidog Cyllid.

Trefnwyd arddangosfa o ddogfennau trethi hanesyddol ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn gyda chefnogaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifysgol Bangor ac Archifdy Morgannwg.

Cynhaliwyd arddangosfeydd ym Mhrifysgol Bangor, yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno, yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn Archifdy Morgannwg ac yn y Senedd.

Fe wnaeth yr arddangosfeydd ennyn diddordeb eang ymysg y cyhoedd, gydag o leiaf 500 o bobl yn ymweld â nhw.



HISTORIC NEW TAX POWERS FOR WALES

The Welsh Government's Taxes in Wales Exhibition is being held between 20th-28th November. It is hosted by our exhibition partners at their premises at:

- The National Library for Wales Aberystwyth
- Bangor University
- The Glamorgan Archives in Cardiff

In addition to providing an insight into historical taxes in Wales the exhibition encourages people and organisations to offer their views and engage with us to help shape the development of a future Welsh tax regime. As such, we hope that you will take the opportunity to consider and comment on the proposals we are consulting on currently regarding tax collection and management arrangements for Wales.

The proposals for tax collection and management will lead to the first Welsh tax legislation in modern times and in developing this we are seeking views on a number of key issues including:

- Who might undertake the collection and management of taxes
- Whether to adopt a "pay first" principle whereby taxes calculated due should be paid first, including when an appeal has been lodged and an outcome is pending
- Addressing tax avoidance. The majority of people pay their taxes that are due and understand that our public services are dependent upon it. Unfortunately there is a minority who seek to avoid paying. We are seeking views on what legislation should be in place to prevent this

Details of the proposals are available on the Welsh Government's website at: www.wales.gov.uk/consultations/finance/devolved-taxes – or use the QR code



W023510 © Crown copyright 2014



PWERAU TRETH NEWYDD HANESYDDOL I GYMRO

Cynhelir arddangosfa gan Lywodraeth Cymru rhwng 20 a 28 Tachwedd, sef Arddangosfa Trethi yng Nghymru. Bydd ein partneriaid yn yr arddangosfa yn ein gwahodd i'w hadeiladau yn:

- Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Archifau Morgannwg yng Nghaerdydd

Yn ogystal â rhoi cipolwg ar drethi hanesyddol yng Nghymru mae'r arddangosfa'n annog pobl a sefydliadau i fynegi eu barn ac ymgysylltu â ni i helpu i lunio datblygiad y system dreth yng Nghymru yn y dyfodol. Felly, gobeithio y byddwch yn manteisio ar y cyfle i ystyried y cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd o ran y trefniadau casglu a rheoli trethi i Gymru, ac yn rhoi eich sylwadau arnynt.

Bydd y cynigion ar gyfer casglu a rheoli trethi yn arwain at y ddeddfwriaeth drethi gyntaf i'r Gymru fodern. Rydym yn gofyn am sylwadau ar nifer o faterion allweddol, gan gynnwys:

- Pwy fyddai'n ymgymryd â'r gwaith o gasglu a rheoli trethi
- P'un a ddylid mabwysiadu egwyddor o "dalw'n gyntaf" lle bydd trethi a gyfrifir yn ddyledus yn cael eu talu'n gyntaf, gan gynnwys pan fydd apel wedi'i chyflwyno a chanlyniad ar fin cael ei gyhoeddi
- Ymddrin ag osgoi talu treth. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn talu eu trethi ac yn deall bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn ddibynnol ar hynny. Yn anffodus mae lleiafrif sy'n ceisio osgoi talu treth. Rydym yn ceisio sylwadau ar ba ddeddfwriaeth ddylai fod ar waith i atal hyn

Mae manylion y cynigion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.cymru.gov.uk/consultations/finance/devolved-taxes - neu defnyddiwch y cod MR



W023510 © Hawlfraidi y Crown 2014

Dangoswyd diddordeb da yn yr ymgynghoriad ar y cyfan ar ein gwefan; cafwyd oddeutu 2,200 o ymweliadau â thudalen yr ymgynghoriad – arweiniodd 38% o'r rhain at lawrlwytho'r Papur Gwyn.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Daeth yr holl ymatebion gan ymatebwyr yng Nghymru, Cangen Cymru o sefydliadau DU gyfan neu trafodent eu profiad o weithredu yng Nghymru.

Cyf.	Enw'r Ymatebydd	Categori
1	Dienw	Unigolyn
2	Dienw	Unigolyn
3	Tim Johns	Unigolyn
4	Dienw	Unigolyn
5	Martyn Vaughan	Unigolyn
6	Margaret Wozencraft	Unigolyn
7	Dienw	Unigolyn
8	Raymond Greenwood	Unigolyn
9	Dienw	Unigolyn
10	Barbara Wright	Unigolyn
11	Kenneth MacArthur	Unigolyn
12	Dienw	Unigolyn
13	Jim Bowen	Unigolyn
14	Dienw	Unigolyn
15	Dienw	Unigolyn
16	Dienw	Unigolyn
17	Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel	Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol
18	Sefydliad Siartredig Trethiant	Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol
19	Dienw	Unigolyn
20	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Pleidiau Gwleidyddol
21	RSPB (Cymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar)	Elusennau
22	Cymdeithas Genedlaethol yr Asiantau Tai	Busnesau
23	Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr	Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol
24	KPMG	Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol
25	Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru	Corff Cyhoeddus
26	Cymdeithas y Technegwyr Trethiant	Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol
27	RTPI (Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol) Cymru	Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol
28	FSB Cymru	Busnesau
29	PricewaterhouseCoopers LLP	Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol
30	Cymdeithas y Gyfraith	Cyrrff Proffesiynol Cyfreithiol
31	Cyfoeth Naturiol Cymru	Corff Cyhoeddus
32	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Elusennau
33	CLA (Cymdeithas y Tirfeddianwyr) Cymru	Busnesau
34	CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)	Corff Cyhoeddus
35	Cyngor Dinas Caerdydd	Corff Cyhoeddus
36	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Corff Cyhoeddus
37	Dienw	Busnesau
38	Arglwydd Brif Ustus	Corff Cyhoeddus
39	CBI Cymru	Busnesau
40	RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig)	Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol

Ymatebion yn ôl categori'r ymatebwyr:

Categori	Enw'r Ymatebydd	Nifer
Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol	Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel (Yn cynrychioli aelwydydd ag incwm o lai na £20,000)	17
Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol	Sefydliad Siartredig Trethiant (Yn cynrychioli dros 17,000 o aelodau)	18
Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol	Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (Yn cynrychioli 142,000 o aelodau)	23
Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol	KPMG	24
Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol	Cymdeithas y Technegwyr Trethiant (Yn cynrychioli 7,000 o aelodau)	26
Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol	RTPI (Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol) Cymru (Yn cynrychioli dros 23,000 o aelodau)	27
Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol	PricewaterhouseCoopers LLP	29
Cyfrifwyr a chyrff proffesiynol	RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) (Yn cynrychioli 4,000 o aelodau)	40
Busnesau	Cymdeithas Genedlaethol yr Asiantau Tai (Yn cynrychioli dros 6,500 o aelodau)	22
Busnesau	FSB Cymru (Yn cynrychioli dros 10,000 o aelodau)	28
Busnesau	CLA (Cymdeithas y Tirfeddianwyr) Cymru (Yn cynrychioli 3,500 o aelodau yng Nghymru)	33
Busnesau	Dienw	37
Busnesau	CBI Cymru (Yn cynrychioli dros 190,000 o fusnesau yn y DU)	39
Elusennau	RSPB (Cymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar) (Yn cynrychioli dros 1.1. miliwn o aelodau/cyfranwyr)	21
Elusennau	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Yn cynrychioli mwy na 2,500 o sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru)	32
Unigolyn	Dienw	1
Unigolyn	Dienw	2
Unigolyn	Tim Johns	3
Unigolyn	Dienw	4
Unigolyn	Martyn Vaughan	5
Unigolyn	Margaret Wozencraft	6
Unigolyn	Dienw	7
Unigolyn	Raymond Greenwood	8
Unigolyn	Dienw	9
Unigolyn	Barbara Wright	10
Unigolyn	Kenneth MacArthur	11
Unigolyn	Dienw	12
Unigolyn	Jim Bowen	13
Unigolyn	Dienw	14
Unigolyn	Dienw	15
Unigolyn	Dienw	16
Unigolyn	Dienw	19

Cyrff Proffesiynol Cyfreithiol	Cymdeithas y Gyfraith (Yn cynrychioli dros 166,000 o aelodau)	30
Pleidiau Gwleidyddol	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	20
Corff Cyhoeddus	Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru	25
Corff Cyhoeddus	Cyfoeth Naturiol Cymru	31
Corff Cyhoeddus	CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) (Yn cynrychioli 22 o awdurdodau lleol)	34
Corff Cyhoeddus	Cyngor Dinas Caerdydd	35
Corff Cyhoeddus	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	36
Corff Cyhoeddus	Yr Arglwydd Brif Ustus	38

Geirfa

AA - ardrethi annomestig

ADR - Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod

ACC – Awdurdod Cyllid Cymru

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

CThEM - Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

DOTAS - Datgelu Cynlluniau Osgoi Trethi

GAAR - Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi neu'r Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd

LDT – Treth Gwarediadau Tirlenwi

LTT – Treth Trafodiadau Tir

PSG – Prif Swyddog Gweithredol

SDLT – Treth Dir y Dreth Stamp

SEPA - Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yn yr Alban

UD – Uwch Dribiwnlys

WG – y Weinyddiaeth Gyfiawnder